Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 37 – 7 RHAGFYR 2009

Hwn fydd yr e-fwletin olaf am eleni felly hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi Morlan mewn rhyw ffordd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac i ddymuno Nadolig Llawen Iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Cofiwch am ein dathliad Nadolig am 5.30, nos Iau yma (10 Rhagfyr). Dewch i rannu'r pwnsh ffrwythau cynnes a'r mins peis ac i ymuno yn y canu carolau! Dewch hefyd i gefnogi aelodau Clwb Clex wrth iddynt lawnsio eu Prosiect Nadolig; bydd hwn i'w weld y tu allan i'r Morlan hyd at y Nadolig. Byddai'n braf iawn eich gweld yno – croeso cynnes i bawb.

Nodir yma'r digwyddiadau sydd ymlaen yma yn ystod mis Rhagfyr.

PAENTIADAU – Y PRESANTAU PERFFAITH
hyd at 8 Ionawr 2010
Arddangosfa gelf dan ofal Cymdeithas Gelf Ceredigion – rhyw 70 o luniau amrywiol gan y grŵp hwn o artistiaid lleol. Bydd ganddynt fore coffi yma ar fore Sadwrn, 19 Rhagfyr i godi arian i elusen leol. Bydd hefyd yn gyfle i chi weld a phrynu'r lluniau (wedi'r cyfan, paentiadau yw'r "presantau perffaith"!) a chwrdd â rhai o'r artistiaid.

CYNGERDD NADOLIG GYDA CHÔR MEIBION A SEINDORF ARIAN ABERYSTWYTH
7.30, Nos Fercher, 9 Rhagfyr
Cyfle i ddathlu'r Nadolig gyda Chôr Meibion Aberystwyth, Seindorf Arian y dre ac artistiaid lleol eraill. Elw at Ffagl Gobaith. Tocynnau: £5 ac ar gael o swyddfa Ffagl Gobaith (01970-617042).

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 10 Rhagfyr
Sesiynau ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli.

SESIWN NADOLIG PRIFYSGOL Y DRYDEDD OES
2.30, dydd Iau, 10 Rhagfyr
Cyfarfod misol Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

FFRACSIYNAU – FRACTIONS
2.00, 5.00, 7.30, dydd Gwener, 11 Rhagfyr
12.00, 3.00, dydd Sadwrn, 12 Rhagfyr
Gwahoddiad i berfformiad rhad ac am ddim wedi'i greu allan o leisiau eich cymuned – eich cymdogion, eich ffrindiau, eich straeon. Cynhyrchiad Fingerprint Productions yw hwn, sef grŵp o fyfyrwyr o'r Brifysgol. Tocynnau ar gael o http://tftvbookings.aber.ac.uk.

BORE COFFI ER BUDD HAUL – CELFYDDYDAU MEWN IECHYD
10.00-1.00, Sadwrn, 12 Rhagfyr
Bore Coffi i godi arian at HAUL – mudiad sy'n creu gwaith celf, perfformiadau a digwyddiadau i godi calon cleifion, staff ac ymwelwyr o fewn safleoedd gofal iechyd yng Ngheredigion. Dewch i'w cefnogi!

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 16 Rhagfyr
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

PACT (PARTNERIAID A CHYMUNEDAU YN CYDWEITHIO)
7.00, nos Fercher, 16 Rhagfyr
Gwahoddiad gan y Tîm Plismona Bro i aelodau'r gymuned leol ddod i drafod eu syniadau ar gyfer eu cymuned.

DASH BASH
Nos Sadwrn, 19 Rhagfyr
Noson gydag amryw fandiau a cherddoriaeth i godi arian i DASH – elusen leol sy'n cynnig gwasanaethau hamdden i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Manylion pellach i ddilyn.

RHAGHYSBYS: *STORIES WITH WINGS, BRAVE GIRLS & CELTIC KINGS*
7.30, nos Sadwrn, 9 Ionawr
Y Storïwyr Milly & Bo yn cyflwyno perfformiad sy'n dathlu natur ac yn edrych ar rôl adar o fewn chwedloniaeth, gan gynnwys stori Melangell a drudwy Branwen. Cymysgedd hudol i godi'r ysbryd ac agor drysau'r dychymyg er mwyn i chi hedfan fri mewn byd o ffantasi! Yn cynnwys cyfuniad unigryw o gerddoriaeth wreiddiol a cherddoriaeth draddodiadol Gymreig. Yn addas i oedolion a phlant dros 8 oed. Tocynnau (ar werth o'r Morlan): £6 (£4 gostyngol). Trefnir gyda chymorth y cynllun Noson Allan.

Cofion gorau

Carol Jenkins

Rheolwr